

# Cymdeithas Mudiadau

## Gwirfoddol Penybont

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol

### 7. Dod o hyd i arian a'i gael

#### 7.7.1 Cyflwyniad i dendro



## Cipolwg

Mae mwy a mwy o fudiadau trydydd sector yn ceisio amrywio eu ffynonellau incwm drwy ymgorffori strategaethau a thechnegau a fydd yn sicrhau sylfaen gynaliadwy o gyllid iddynt. Mae tendro i gyflwyno nwyddau neu wasanaethau dan gcontract yn un o ddewis eang o opsiynau y bydd sefydliadau trydydd sector yn ei ystyried o bosib er mwyn creu incwm.

Bwriad y daflen wybodaeth hon yw rhoi darlun cryno o dendro a'r materion y dylai mudiadau trydydd sector eu hystyried cyn penderfynu tendro.

## O grantiau i gcontractau

Mae'r amgylchedd cyllido yng Nghymru wedi newid yn sylweddol dros y blynyddoedd diweddar. Gwelwyd pwyslais cryf ar gynyddu cyfraniad mudiadau'r trydydd sector at gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus, ond yn sgil y pwysau ar gyllidebau'r sector cyhoeddus, mae llawer o'r grantiau traddodiadol ar gyfer cyflenwi gwasanaethau yn cael eu cynnig yn awr fel tendrau cystadleuol.

Mae'r farchnad sector cyhoeddus yn cynnig amrywiol gyfleoedd ar gyfer mudiadau trydydd sector. Gallai gwasanaethau a gyflenwir dan gcontract gynnwys y canlynol:

- Cynlluniau cludiant cyhoeddus
- Gofal seibiant neu ofal dydd
- Triniaeth neu therapïau iechyd
- Prydau ar glud
- Cynlluniau ailgylchu

## Beth yw tendro?

Pan fydd corff sy'n prynu, megis awdurdod lleol, yn dymuno penodi trydydd parti i gyflenwi gwasanaeth penodol dan delerau contract, dilynr proses caffael gaeth.

Diffinnir caffael fel prynu nwyddau neu wasanaethau gan drydydd parti a gyflenwir dan delerau contract sy'n gyfreithiol rwymol.

Bydd y broses caffael y bydd corff sy'n prynu yn ei dilyn yn cynnwys rhoi Gwahoddiad i Dendro, gan wahodd unrhyw bartïon sydd â diddordeb i gyflwyno bid, neu dendr, am y gwaith hwn.

Mae tendro yn broses gystadleuol o fidio er mwyn cyflenwi nwyddau neu wasanaethau dan delerau contract. Mae'n golygu paratoi tendr ysgrifenedig i ddangos eich gallu fel cyflenwr posib i fodloni gofynion y corff sy'n prynu.

## **Beth yw contract?**

Os bydd eich tendr yn llwyddiannus, bydd gofyn i chi gyflenwi'r nwyddau neu'r gwasanaethau dan delerau contract sy'n gyfreithiol rwymol. Mae contract yn gytundeb rhwng dau barti neu ragor a gydnabyddir gan y gyfraith ac yn rhywbeth y gellir ei orfodi drwy'r llysoedd. Yn gyffredinol, nid oes unrhyw ffurf benodol ar gyfer contractau: gallant fod yn ysgrifenedig, ar lafar neu'n ddealladwy drwy ymddygiad.

Cyn cyflwyno tendr, dylech ddarllen holl amodau'r Gwahoddiad i Dendro yn ofalus. Drwy gyflwyno tendr, mae'n bosib eich bod yn cytuno i fodloni'r holl delerau a gyflwynir gan yr awdurdod sy'n prynu os byddwch yn llwyddiannus.

Cyn ymrwymo i gontract, dylech gynnal asesiad risg trylwyr er mwyn sicrhau bod ymgymryd â'r contract er budd gorau i'ch mudiad a dylech geisio cyngor proffesiynol bob amser.

## **A yw tendro yn addas i chi?**

Cyn ystyried contractio am y tro cyntaf, mae'n rhaid i chi fod yn hyderus bod eich mudiad yn gallu:

- Cystadlu â mudiadau eraill yn y farchnad agored
- Cyflenwi gwasanaethau yn brydlon ac at safonau gofynnol
- Cadw enw da a chadarn am reolaeth ariannol a masnachol
- Cynnig gwerth am arian

Hefyd, dylech ystyried y pwyntiau canlynol wrth benderfynu a yw cyflenwi gwasanaethau dan gontract yn addas ar gyfer eich mudiad:

- Pwrpas craidd – A yw'r hyn rydych chi'n cynnig ei gyflenwi yn cydweddu â'ch pwrpas a'ch nodau craidd? Wrth gyflenwi gwasanaethau y tu allan i'r cylch gwaith hwn, gall arwain at oblygiadau i'ch mudiad. Dylech geisio cael cydbwysedd rhwng cael eich sbarduno gan eich pwrpas a chael eich sbarduno dan gymhelliant ariannol.
- Gweithgareddau cyfredol - Bydd y gwasanaethau y byddwch chi'n penderfynu eu cyflenwi yn ddibynnol ar weithgarwch presennol, profiadau ac enw da eich mudiad. Ydych chi'n gallu cyflenwi'r gwasanaeth hwn yn well neu'n fwy effeithlon na'r rheini sy'n cystadlu yn eich erbyn?
- Gallu – Ni ddylid diystyru faint o waith a gymerir i roi tendr llwyddiannus at ei gilydd ac i reoli contract ar ôl iddo gael ei ddyfarnu. A oes gennych chi'r gallu i gyflenwi?
- Newid o fewn y mudiad – A yw eich mudiad yn barod i fabwysiadu ffyrdd newydd o weithio? Wrth dendro ceir cryn dipyn o graffu, felly a oes gan eich mudiad y polisïau a'r gweithdrefnau ar waith er mwyn bodloni'r gofynion hyn?

- Effaith ariannol – Os nad yw cyflenwi gwasanaeth penodol dan contract yn cyfrannu at brif bwrpas mudiad a, thrwy hynny, yn gwarchod yr elfen eithrio rhag treth, gallai olygu y byddai'n rhaid i'r mudiad gofrestru ar gyfer TAW, a'i godi, lle bo hynny'n briodol. Ydych chi'n deall y rheoliadau hyn?
- Fframwaith cyfreithiol – A yw eich dogfen lywodraethu yn caniatáu i chi fasnachu neu gyflenwi gwasanaethau? Ceir hefyd lawer o reolau a rheoliadau sy'n ymwneud ag elusennau'n cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus ac yn masnachu. Mae'n bwysig eich bod yn ymwybodol o'r fframweithiau cyfreithiol ac i ba raddau y maent yn effeithio ar eich mudiad.

## **Dod o hyd i'r cyfleoedd**

Mae ystod helaeth o gyfleoedd contractio'n cael eu hysbysebu mewn amrywiol lefydd. Mae canfod cyfleoedd yn gofyn am gyfuniad o ymchwil a rhwydweithio i greu'r cysylltiadau cywir.

A dibynnu ar faint, graddfa a natur y contractau hyn, gellir canfod gwybodaeth drwy'r ffynonellau cyfleoedd a restrir isod. Nid yw'r rhestr yn hollgynhwysol, a man cychwyn yn unig ydyw.

- Y Wasg – Hysbysebion mewn papurau newydd lleol, cenedlaethol a rhanbarthol neu mewn cylchgronau masnach.
- Digwyddiadau 'cwrdd â'r prynwr' – trefnwyd gan awdurdodau lleol neu asiantaethau cefnogi i ddod â phrynwyr gwasanaethau a chyflenwyr posib at ei gilydd. Ffordd ddefnyddiol o ddod i wybod am gyfleoedd contractio posib a beth yw'r ffordd orau o gysylltu â'r adrannau prynu perthnasol.
- Mae [www.sell2wales.co.uk](http://www.sell2wales.co.uk) yn caniatáu i chi gofrestru am ddim er mwyn cael hysbysiadau am contractau sector cyhoeddus (dros £25,000 fel arfer).
- Mae [www.buy4wales.co.uk](http://www.buy4wales.co.uk) yn caniatáu sector cyhoeddus Cymru i hysbysebu cyfleoedd tendro a chontractio.
- Mae [www.wefo.wales.gov.uk](http://www.wefo.wales.gov.uk) yn cyhoeddi rhestr o brosiectau a ariennir gan yr UE ac yn tynnu sylw at y rheini sy'n cynnwys cyfleoedd tendro.
- Mae <http://ted.europa.eu> – Cofnod Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd (OJEU) yn cyhoeddi'r holl gyfleoedd sector cyhoeddus sydd dros drothwy Ewrop penodol.
- Mae [www.sustainablefundingcymru.org.uk](http://www.sustainablefundingcymru.org.uk) - Porth Cyllido'r Trydydd Sector yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am dendrau a gyllidir drwy Ewrop a'r sector cyhoeddus.

## **Cyfleoedd arfarnu**

Wrth ystyried hysbysiadau tendro, rhaid i chi feddwl yn ofalus cyn penderfynu tendro am ddarn unigol o waith.

- Pwrpas – a yw'r gwaith arfaethedig yn cydweddu â phwrpas eich mudiad?
- Gallu – a oes gennych chi'r amser, yr adnoddau a'r gallu i baratoi tendr llwyddiannus? A allech chi gyflenwi'r contract os byddwch yn llwyddiannus?
- Dichonoldeb ariannol – a fyddwch yn elwa'n ariannol wrth gyflenwi'r contract?

- Cystadleuwyr – beth rydych chi'n ei wybod am y gystadleuaeth bosib?
- Risgiau – beth yw'r risgiau a'r cyfrifoldebau, ac a ydynt yn risgiau rydych yn barod i'w cymryd?
- Datblygu busnes – a fyddai'r contract yn rhoi cyfle i'ch mudiad dyfu?
- Cydweithio – beth yw'r posibilrwydd ar gyfer gweithio ar y cyd?
- Rheoli contract – a yw telerau'r contract yn dderbyniol i chi?

## **Y broses tendro**

Weithiau, mae dulliau prynwyr yn amrywio wrth gynnig tendr cystadleuol ar gyfer cyflenwi nwyddau neu wasanaethau. Mae llawer o brynwyr yn datblygu eu gweithdrefnau, eu safonau a'u protocolau eu hunain ond fel rheol byddwch yn dilyn proses debyg i'r un isod.

### **1. Hysbyseb / Gwahoddiad i dendro**

Mae corff prynu yn hysbysebu ei hysbysiad tendro yn y cyfryngau priodol.

### **2. Datgan diddordeb**

Mae cyflenwyr sydd â diddordeb yn ymateb i hysbysiad tendro drwy gyflwyno 'datganiad diddordeb' ysgrifenedig erbyn y dyddiad gofynnol, fel y nodwyd yn yr hysbyseb. Bydd rhai hysbysebion tendro ar-lein yn caniatáu i chi lawrlwytho dogfennau tendr yn uniongyrchol o'r hysbyseb.

### **3. Dogfennau tendro (gan gynnwys Holiadur Cyn-gymhwyso)**

Mae'r prynwr yn anfon set gyflawn o ddogfennau tendro at bob cyflenwr â diddordeb. Mae'r cyflenwyr yn cael cais i gwblhau'r gwaith papur hwn a dychwelyd yr holl ddogfennau erbyn y dyddiad gofynnol. Mewn rhai achosion, mae'n rhaid i gyflenwyr rag-gymhwyso cyn cael gwahoddiad i dendro. Byddant yn gwneud hyn drwy lenwi holiadur cyn-gymhwyso, gan roi gwybodaeth am eu statws ariannol, profiad blaenorol, geirdaon ac ati.

### **4. Gwahoddiad i drafod y tendr**

Lle bo hynny'n briodol, gall prynwyr roi cyfle i gyflenwyr posib drafod y tendr dan sylw er mwyn deall y gofynion yn llwyr ac asesu pa mor addas ydyn nhw eu hunain cyn bidio. Fodd bynnag, ni wneir dim yn y cam hwn a fyddai'n rhoi i gyflenwr penodol fantais annheg wrth gystadlu am gontract penodol.

### **5. Cyflwyno tendr**

Bydd cyflenwyr yn cwblhau dogfennau'r tendr ac yn dychwelyd yr holl waith papur erbyn y dyddiad gofynnol.

### **6. Arfarnu**

Yn y cam hwn, mae'r prynwr yn arfarnu pob cyflwyniad. Ceisir esboniadau pellach yn aml drwy gyfrwng cyfweiliadau cystadleuol cyn dyfarnu'r contract i'r cyflenwr llwyddiannus.

## 7. Dyfarnu contract

Mae'r prynwr wedyn yn dyfarnu'r contract i'r cyflenwr y mae ei fid yn cynnig gwerth am arian neu'r un y mae ei fid yn bodloni meini prawf y contract orau. Mae pawb sy'n ymwneud â'r broses yn gweithio gyda'i gilydd i sefydlu'r gweithrediadau ar gyfer y contract arfaethedig.

## Gwybodaeth bellach

### Taflenni gwybodaeth

3.7 Comisiynu

3.8 Contractau

7.1 Cyflwyniad i gaffael

7.7.2 Ysgrifennu a chyflwyno tendrau

7.7.3 Costio eich tendr

### Ochr gyfreithiol

- Mae *CC37 Elusennau a darparu gwasanaeth cyhoeddus* a gynhyrchwyd gan y Comisiwn Elusennau, yn nodi'r ystyriaethau ar gyfer elusennau wrth ymgymryd â chontract. Gellir ei llwytho oddi ar [www.charity-commission.gov.uk](http://www.charity-commission.gov.uk)
- Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau ynghylch goblygiadau treth at Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi.  
0845 302 0203  
[www.hmrc.gov.uk/charities/vat/intro.htm](http://www.hmrc.gov.uk/charities/vat/intro.htm)

### Cefnogaeth

- Mae Cynghorau Gwirfoddol Sirol yng Nghymru yn rhoi gwybodaeth am ystod eang o faterion ariannol a chyllido gan gynnwys tendro. Gweler y daflen wybodaeth '1.7 Lle i fynd am gymorth' i gael manylion eich Cyngor Gwirfoddol Sirol lleol. Mae Porth Cyllido Trydydd Sector Cyllid Cynaliadwy Cymru yn siop un-stop ar gyfer cyngor a chyfleoedd cyllido.  
[www.sustainablefundingcymru.org.uk](http://www.sustainablefundingcymru.org.uk)
- Mae tîm 3-SET WCVA yn rhoi arweiniad ar dendro ar gyfer cyfleoedd a ariennir gydag arian Ewrop.  
0800 2888 329  
[3SET@wcva.org.uk](mailto:3SET@wcva.org.uk)
- Nod Gwasanaeth Datblygu Cyflenwyr Llywodraeth Cymru yw rhoi cyfle gwell i fusnesau o bob sector ennill contractau'r sector cyhoeddus.  
[www.business-support-wales.gov.uk](http://www.business-support-wales.gov.uk)

### Hyfforddiant

- *Cyflwyniad i dendro* – manylion cwrs rhagarweiniol undydd sydd ar gael yn [www.coursesforcommunities.org.uk](http://www.coursesforcommunities.org.uk)
- *Sut mae tendro* – mae manylion cwrs deuddydd ymarferol yn dilyn y camau sy'n gysylltiedig ag ysgrifennu a chyflwyno tendr ar gael yn [www.sustainablefundingcymru.org.uk](http://www.sustainablefundingcymru.org.uk)

## Ymwadiad

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

### Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

**Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Penybont**

112-113 Heol y Fasnach , Maesteg , Pen-y-Bont ar Ogwr, CF34 9DL

**Elusen Gofrestredig:** 1146543 Rhif Cwmni: 07691764

**Ffôn:** 01656 810400

bavo@bavo.org.uk

**Ffacs:** 01656 812151

www.bavo.org.uk



Cynhyrchwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli  
**Wedi ei ddiweddarau:** 28/06/2011

Ffôn: 0800 2888 329  
www.wcva.org.uk